OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 782

# Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

## RHAN 2

### Tryloywder

**Hysbysiadau tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy**

**25.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy, a gyhoeddir o dan adran 87(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) pan fo'r contract yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at farchnad ddynamig, y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig honno,

(e) pan fo'r contract i gael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig, y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan honno gan yr awdurdod contractio,

(f) pwnc y contract,

(g) amcangyfrif o werth y contract,

(h) sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,

(i) a yw'r hysbysiad yn cael ei ddefnyddio i wahodd tendrau ar gyfer contract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw'r contract hwnnw yn gontract cyffyrddiad ysgafn,

(j) a yw'r awdurdod contractio yn ystyried y gall y contract neu unrhyw lot sy'n ffurfio rhan o'r contract fod yn arbennig o addas i'w ddyfarnu—

(i) i fenter fach a chanolig ei maint, neu

(ii) i gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

(k) esboniad o'r meini prawf y bydd dyfarnu'r contract yn cael ei asesu yn eu herbyn, ac

(l) disgrifiad o unrhyw amodau cymryd rhan mewn perthynas â dyfarnu'r contract.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "hysbysiad tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy" yr ystyr a roddir i "below-threshold tender notice" gan adran 87(5) o Ddeddf 2023.